**PWYLLGOR CRONFA BENSIYNAU CLWYD**
**29 TACHWEDD 2023**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cronfa Bensiynau Clwyd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd ar ffurf cyfarfod hybrid yn Neuadd y Sir am 9.30am ddydd Mercher, 29 Tachwedd 2023, gyda mynychu o bell ar gael trwy Zoom.

**YN BRESENNOL: Cynghorydd Ted Palmer (Cadeirydd), Cynghorydd Dave Hughes (Is-gadeirydd, yn bresennol tan 10:15am)**
Y Cynghorwyr: Jason Shallcross, Antony Wren, Sam Swash

**AELODAU CYFETHOLEDIG:** Y Cynghorydd Andy Rutherford (Cynrychiolydd Cyflogwyr Cynllun Arall) a Mr Steve Hibbert (Cynrychiolydd Aelodau'r Cynllun)

**HEFYD YN BRESENNOL (FEL ARSYLWYR):** Elaine Williams (cynrychiolydd aelod Cynllun PFB), Mark Morgan (Aelod Annibynnol o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint), Neal Cockerton (Prif Weithredwr, Cyngor Sir y Fflint)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Anthony Wedlake (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Y Cynghorydd Gwyneth Ellis (Cyngor Sir Ddinbych), Y Cynghorydd Dave Hughes (yn bresennol tan 10:15am)

Panel Ymgynghorol: Philip Latham (Pennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Gary Ferguson (Rheolwr Cyllid Corfforaethol), Sharon Carney (Rheolwr Corfforaethol, Pobl a Datblygu Sefydliadol), Karen McWilliam (Ymgynghorydd Annibynnol - Aon), Paul Middleman (Actiwari'r Gronfa - Mercer), a Steve Turner (Ymgynghorydd Buddsoddi'r Gronfa - Mercer).

Swyddogion/Ymgynghorwyr: Debbie Fielder (Dirprwy Bennaeth Cronfa Bensiynau Clwyd), Karen Williams (Rheolwr Gweinyddu Pensiynau), Alison Murray (Ymgynghorydd Annibynnol Amgen - Aon), Andy Munro (Ymgynghorydd Buddsoddi – Mercer), Ieuan Hughes (Hyfforddai Buddsoddiadau Graddedig) a Morgan Nancarrow (Cynorthwyydd Gweinyddol Llywodraethu – cymryd cofnodion).

Siaradwyr Gwadd yn Cyflwyno:
Mike Whitely (Archwilio Cymru)

Cyflwynodd y Cadeirydd Mark Morgan o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint (CSFf), a oedd yn bresennol fel arsyllwr annibynnol. Roedd cynrychiolwyr y Pwyllgor Safonau wedi bod yn mynychu cyfarfodydd ar draws Cyngor Sir y Fflint drwy gydol 2022-23, a byddai adborth o'r arsylwi hyn yn cael ei roi i'r Cadeirydd maes o law.

## 26. DATGAN CYSYLLTIAD (yn cynnwys gwrthdaro buddiannau)

Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol gan y Cadeirydd i ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau parthed y Gronfa, ar wahân i'r rheiny a gofnodwyd eisoes yng nghofrestr y Gronfa.

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad newydd.

## 27. COFNODION 30 AWST 2023

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 30 Awst 2023.

**PENDERFYNWYD:**

Bod cofnodion cyfarfod 30 Awst 2023 yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 28. DATGANIAD Y STRATEGAETH FUDDSODDI

Eglurodd y Cadeirydd fod y Gronfa wedi dilyn proses drylwyr wrth adolygu ei datganiad strategaeth fuddsoddi (ISS) gan gynnwys sawl sesiwn hyfforddi, a chytunwyd ar y polisi buddsoddi cyfrifol (BC) arfaethedig yn y Pwyllgor diwethaf. Ar ôl ymgynghori â chyflogwyr y cynllun, dosbarthwyd newidiadau arfaethedig i'r geiriad cyn y cyfarfod a daethpwyd â'r ISS dilynol i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo.

Aeth Mr Turner o Mercer â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad hwn, gan amlygu na dderbyniwyd unrhyw sylwadau gan gyflogwyr mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar bolisi BC arfaethedig y Gronfa. Diolchodd i'r Cynghorydd Swash am ei ymholiad yn y cyfarfod blaenorol ynghylch y datganiadau ymgysylltu, a ystyriwyd ar ôl y cyfarfod ac roedd y geiriad hwn bellach wedi'i egluro. Gofynnwyd yn awr i'r Pwyllgor gymeradwyo fersiwn derfynol yr ISS hwn.

Eglurodd Mr Turner fod Swyddogion a Chynghorwyr wedi bod yn trafod adolygiad pellach i'r ISS. Er nad oedd adolygiad ffurfiol tair blynedd o'r ISS wedi'i gynnal eto, mae'r Pwyllgor yn gallu cynnal adolygiad yn gynt lle bo'n briodol. Eglurodd Mr Turner y rhesymeg dros y cynnig hwn, a oedd yn cynnwys adolygu dyraniad asedau cyffredinol y Gronfa i:

- Gwblhau cynllun i gyrraedd y dyraniad targed ar gyfer Cronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC;
- Sicrhau bod hyblygrwydd hylifedd yn ddigonol i fodloni galwadau cyfalaf y farchnad breifat ac anghenion llif arian parhaus;
- Sicrhau bod lefel y cyfalaf yn gadarn i gynnal y rhagfantoli o fewn y Fframwaith Rheoli Arian Parod a Risg, o ystyried anwadalrwydd cynnyrch giltiau a newidiadau i reoliadau;
- Parhau i wneud cynnydd tuag at nodau hinsawdd.

Yn ogystal, mae gan y Gronfa 'sbardun' ar waith i ysgogi adolygiad ffurfiol ac ystyried y posibilrwydd o leihau risgiau pan fydd lefel y cyllid yn cyrraedd 110%. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r sefyllfa ariannu wedi bod mor uchel â 108%, a gallai'r Gronfa gyrraedd y sbardun o 110% yn y tymor agos cymharol. Byddai adolygiad o'r fath yn golygu cryn dipyn o waith gyda'r actiwari a gallai gymryd nifer o fisoedd. Bydd adolygu'r sefyllfa nawr yn helpu'r Gronfa i achub y blaen ar hyn.

Bydd dadansoddiad ymchwiliol yn cael ei gynnal gan yr Ymgynghorydd Buddsoddi mewn trafodaeth â Swyddogion a bydd yn cael ei gyflwyno yn sesiwn hyfforddi'r Pwyllgor ym mis Chwefror 2024.

Eglurodd Mr Turner y byddai'r gwaith sy'n ymwneud ag adolygu'r agweddau hyn ar yr ISS yn cael ei amsugno gan y gyllideb bresennol, felly ni fydd unrhyw ofyniad cyllideb ychwanegol newydd ar gyfer hyn.

Dywedodd Mr Hibbert ei fod yn cefnogi'r adolygiad yn llwyr, a'i fod yn gweld y sbardun o 110% nid fel targed meddal, ond fel targed caled a oedd yn gofyn am adolygiad o opsiynau priodol.

Gofynnodd y Cyng Swash i'r argymhellion ar gyfer yr eitem hon gael eu hystyried ar wahân. Croesawodd y diwygiad i eiriad y polisi BC gan ddileu cyfeiriad at 'ganran y cwmnïau' ac yn lle hynny cyfeirio at 'ganran y buddsoddiadau yn ôl gwerth' i ddileu amwysedd ac amddiffyn y Gronfa rhag hapchwarae canrannau posibl. Fodd bynnag, nododd ei fod wedi pleidleisio yn erbyn y polisi hwn yn y cyfarfod blaenorol nid yn unig oherwydd y geiriad hwn ond hefyd oherwydd nad oedd yn teimlo bod y rhan hon o'r strategaeth yn cymryd cyfrifoldeb y Gronfa i osgoi trychineb hinsawdd yn ddigon difrifol, ac felly teimlai na allai gefnogi'r strategaeth fuddsoddi hon. Nododd hefyd fod y strategaeth yn cynnwys mesuriadau nad ydynt wedi'u diffinio eto, er enghraifft yn datgan y disgwyliad i "gwmnïau tanwydd ffosil gael strategaeth glir i gyflawni sero net erbyn 2025 neu 2030" heb ddiffinio meini prawf ar gyfer hyn. Ei farn o hyd oedd bod derbyn y strategaeth fel y'i hysgrifennwyd ar hyn o bryd yn mynd ati'n weithredol i niweidio'r blaned a thrwy wrthod gwaredu'r swm cymharol fach sydd gan y Gronfa mewn llygrwyr tanwydd ffosil, mae'r Gronfa'n chwarae rhan fach ond gweithredol mewn cynhesu byd-eang, a bod y bygythiad hwn yn rhoi pensiynau aelodau mewn perygl sylweddol. Teimlai felly y byddai pleidlais o blaid y strategaeth hon yn torri ei ddyletswydd ymddiriedol ac roedd yn bwriadu ei gwrthwynebu. Fodd bynnag, roedd yn hapus i gefnogi'r ail argymhelliad.

Cynhaliwyd pleidlais drwy godi dwylo ar gyfer pob un o'r argymhellion hyn.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn nodi ac yn cymeradwyo'r ISS terfynol.
b) Bod y Pwyllgor yn nodi'r rhesymeg dros adolygu'r strategaeth fuddsoddi a chytuno i ddiweddaru cynllun busnes 2023/24 i gynnwys adolygiad o'r strategaeth fuddsoddi yn gynnar yn 2024.

## 29. ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON CRONFA BENSIYNAU CLWYD 2022/23

Eglurodd Mrs Fielder fod yr adroddiad blynyddol drafft a'r cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Awst, a bod Archwilio Cymru bellach ar gamau olaf eu harchwiliad. Yn dilyn adborth Archwilio Cymru bu rhai newidiadau i'r nodiadau o fewn y cyfrifon, a newid i gyflwyniad y datganiad asedau net lle mae arian parod bellach yn cael ei ddangos ar wahân, ond nid oedd y newidiadau hyn yn effeithio ar y ffigurau llinell waelod. Roedd hwn yn ganlyniad archwilio dymunol. Yr unig fater arwyddocaol i'w adrodd yw'r broses a ddefnyddir gan y Gronfa i bennu ymrwymiadau marchnadoedd preifat sy'n weddill, a gyflawnwyd yn yr un modd ers blynyddoedd lawer. Roedd swyddogion yn hapus i gytuno ar argymhelliad i adolygu'r broses hon yn barod ar gyfer cau cyfrifon 2023/24 ond byddai tynnu sylw at hyn yn broses llafurddwys o ystyried nifer y mandadau marchnadoedd preifat dan sylw.

Diolchodd Mr Whitely o Archwilio Cymru i Mrs Fielder a'r tîm am eu gwaith ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'u cydweithrediad wrth ymdrin yn adeiladol ag ymholiadau archwilio. Aeth â'r Pwyllgor drwy adroddiad ISA-260, gan dynnu sylw at rai meysydd allweddol:

- Cyfeiriodd paragraff 6 at rywfaint o waith sy'n dal i fynd rhagddo. Roedd gwaith Archwilio Cymru yn y meysydd hyn bellach wedi'i gwblhau ac nid oedd unrhyw faterion pellach yn codi o'r meysydd hynny.
- Roedd paragraffau 8 a 9 yn cyfeirio at y ddau fygythiad tuag at annibyniaeth a gwrthrychedd a nodwyd yn y cynllun archwilio a'r rheolaethau lliniaru i fynd i'r afael â'r rhain. Cododd bygythiad pellach i annibyniaeth yn ystod yr archwiliad, ar ôl i'r cynllun archwilio manwl gael ei gyhoeddi. Roedd hyn yn ymwneud ag aelod o'r tîm yn ymuno â'r tîm archwilio a oedd yn derbyn pensiwn gan Gronfa Bensiynau Clwyd, a rhoddwyd mesurau ar waith i sicrhau nad oedd yr aelod hwn yn cael mynediad at unrhyw ddata personol adnabyddadwy, gwybodaeth cyflogres na gwybodaeth am gyfraddau cyfraniadau aelodau. Roedd y rheolaethau hyn yn gweithredu fel y bwriedwyd.
- Roedd Mr Whitely wedi cymryd lle Michelle Phoenix fel rheolwr archwilio eleni.
- Bwriad Archwilio Cymru oedd cyhoeddi barn archwilio ddiamod yfory, a byddai'r archwilydd cyffredinol yn llofnodi'r dystysgrif archwilio yn amodol ar dderbyn y llythyr sylwadau.
- Cafodd y gwerthusiad cychwynnol o werthoedd buddsoddi annyfynedig fel risg sylweddol ei adolygu yn ystod yr archwiliad, a chafodd ei ostwng.
- Nid oedd unrhyw gamddatganiadau nas cywirwyd yn y cyfrifon, a nifer fach o gamddatganiadau wedi'u cywiro yn y cyfrifon y manylwyd arnynt yn yr adroddiad. Nododd Mr Whitely fod hwn yn gyflawniad arwyddocaol.
- Roedd un mater o bwys yn codi o'r archwiliad ynghylch y broses a ddefnyddir gan y Gronfa i bennu ymrwymiadau cyfalaf yn y dyfodol o dan fandadau ecwiti preifat. Nodwyd rhai mân wallau ac amcangyfrifwyd eu bod wedi'u gorddatgan o £18.5 miliwn o'u rhagamcanu i'r portffolio cyfan. Ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, roedd hwn wedi'i adolygu ac roedd amcangyfrif terfynol y gorddatganiad hwn wedi'i ostwng ychydig i £17.3 miliwn. Amlygodd fod gan y Tîm Cyllid gynlluniau yn eu lle i wella'r broses hon yn y dyfodol.
- Mae Atodiad 3 yn manylu ar y cywiriadau a wnaed gan gynnwys y £98 miliwn a oedd yn fater dosbarthu o fewn y datganiad asedau net lle cafodd arian parod a ddelir yng nghyfrif banc y Gronfa ei ddadansoddi ar wahân eleni. Gwnaethpwyd y newidiadau a diwygiwyd y ffigwr cymharol hefyd.
- Roedd Atodiad 4 yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella prosesau o ran nodi a monitro ymrwymiadau yn y dyfodol.

Diolchodd Mr Ferguson i Archwilio Cymru a'r tîm cyllid pensiynau ar gwblhau'r archwiliad yn unol â therfynau amser statudol, gan nodi bod oedi wrth archwilio cyfrifon rhai awdurdodau lleol. Roedd yn falch bod yr archwilwyr yn gallu cadarnhau bod y cyfrifon yn rhoi barn ddiamod gywir a theg o drafodion ariannol y Gronfa am y flwyddyn. Nododd ei bod bob amser yn debygol y bydd rhai camddatganiadau wedi'u nodi mewn set mor gymhleth o gyfrifon, felly roedd yn arbennig o braf bod yr holl gamddatganiadau wedi'u haddasu yn y cyfrifon y gofynnwyd i'r Pwyllgor eu cymeradwyo. Mae argymhelliad

yr archwiliad wedi’i dderbyn gan y Gronfa ac roedd eisoes yn cael ei weithredu cyn cyfrifon y flwyddyn nesaf. Argymhellodd felly fod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r datganiad o gyfrifon.

Llongyfarchodd y Cyng Dave Hughes y tîm ar adroddiad rhagorol.

**PENDERFYNWYD:**

a) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Gronfa ar gyfer 2022/23 yn cynnwys y Datganiad Cyfrifon.
b) Bod y Pwyllgor yn ystyried yr Adroddiad Archwilio Cyfrifon.
c) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo’r Llythyr Sylwadau terfynol.

## 30. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM DDADANSODDI NEWID HINSAWDD

Nid yw adroddiad y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy’n Gysylltiedig â’r Hinsawdd (TCFD) yn orfodol eto ar gyfer Cronfeydd CPLIL, fodd bynnag mae hyn yn cael ei weld fel arfer gorau i ddangos yn glir ac yn gyhoeddus y monitro sy’n digwydd o risgiau a chyfleoedd yn sgil newid yn yr hinsawdd, gan ddangos tystiolaeth o’r cynnydd a wnaed a nodi’r meysydd o ddiddordeb yn y dyfodol. Ochr yn ochr ag adroddiad TCFD, roedd ffeithlun wedi'i gynhyrchu fel atodiad un dudalen i helpu'r cyhoedd i ddeall yr adroddiad.

Aeth Mr Turner â’r Pwyllgor drwy brif feysydd adroddiad TCFD, gan amlygu bod dadansoddiad atodol wedi’i gynnal yn dangos cynnydd y Gronfa ers dyddiad yr adroddiad (31 Mawrth 2023), yn benodol, yr effaith ar ddatgarboneiddio cyfnod pontio’r Gronfa o asedau o Gronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang PPC i Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC ym mis Mehefin. Amlygwyd gwaith arwyddocaol arall yn ystod y flwyddyn hefyd yn adroddiad TCFD gan gynnwys gwaith tuag at bolisi gwaharddiadau, gwaith mewn buddsoddiadau marchnad preifat, ac ymrwymiad i weithredu syniadau buddsoddi ym mhortffolio TAA i ESG (Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu) penodol a chyllid cynaliadwy, lle bo'n briodol ac ar gael.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2023, bu cynnydd yn ôl troed carbon portffolio ecwiti’r Gronfa. Yn ôl y disgwyl, cyfrannodd trosglwyddo asedau i Gronfa Ecwiti Cyfleoedd Byd-eang PPC a Cronfa Ecwiti Marchnadoedd Datblygol PPC at y cynnydd yn yr ôl troed carbon. Yn ogystal, cynyddodd ôl troed carbon y farchnad gyffredinol oherwydd perfformiad cryf y sector ynni o'i gymharu â sectorau eraill, o ganlyniad i’r ymosodiad ar Wcrain gan Rwsia.

Fodd bynnag, mae'r newid i Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC ym mis Mehefin 2023 wedi cael effaith gadarnhaol, gan ddod â'r Gronfa yn unol yn fras â'r trywydd targed, fel y bwriadwyd. Mae dadansoddiad yn dangos bod cyfran fawr o ôl troed carbon y Gronfa bellach yn deillio o farchnadoedd newydd, sy’n golygu mai hwn yw’r maes allweddol nesaf i’r Gronfa ei dargedu a bydd hyn yn cael ei ystyried fel rhan o’r adolygiad strategaeth arfaethedig.

Diolchodd Mr Hibbert i'r swyddogion a'r ymgynghorwyr am yr adroddiad diddorol a gofynnodd a fyddai'n bosibl i ddadansoddiad yn y dyfodol gynnwys cymhariaeth â'r CPLIL cyffredinol, neu â chronfa CPLIL o faint tebyg. Cadarnhaodd Mr Turner y byddai’n

bosibl darparu asesiad cymharol i helpu i ystyried cynnydd y Gronfa o gymharu â Chronfeydd eraill, ond pwysleisiodd pa mor bwysig yw hi i'r Gronfa ganolbwyntio ar gyrraedd ei thargedau ei hun sy'n mesur y portffolio ecwiti rhestredig lle mae'r data mwyaf cywir.

Gofynnodd y Cynghorydd Shallcross a oedd ystyriaeth yn cael ei rhoi i effeithiau posibl gwrthdaro sy'n codi ar wahân i'r gwrthdaro rhwng Rwsia a'r Wcráin, er enghraifft a oedd disgwyl i'r gwrthdaro rhwng Israel a Phalestina gael effaith debyg ar farchnadoedd. Cadarnhaodd Mr Turner nad oedd yn ymwybodol ar hyn o bryd o unrhyw ganlyniadau cysylltiedig â hinsawdd y gwrthdaro yn y dwyrain canol, nac o unrhyw effaith ar bortffolio'r Gronfa. Nododd fod risg gynhenid yn y posibilrwydd y gallai'r gwrthdaro gynyddu, a allai er enghraifft arwain at bigynnau ym mhris olew, a byddai'r effaith mewn achos o'r fath yn cael ei fonitro. Eglurodd pe bai digwyddiadau'n arwain at ostyngiad sylweddol ym mherfformiad ecwiti byd-eang, mae'r Gronfa'n amrywiol iawn ac roedd y strategaeth diogelu ecwiti o fewn y fframwaith rheoli risg wedi'i chynllunio i liniaru effaith bosibl sefyllfa o'r fath.

Gofynnodd y Cynghorydd Swash am ragor o fanylion am y senario cyflym a ddangoswyd ar y graff ar dudalen 270, a oedd i'w weld yn rhoi'r canlyniad gorau yn y tymor hir. Eglurodd Mr Turner fod y graff hwn yn dangos yr effaith bosibl ar sefyllfa ariannu gwahanol senarios trosiannol dros wahanol gyfnodau amser (5, 20, a 40 mlynedd). Y pwynt allweddol o'r graffigyn oedd pa mor niweidiol fyddai'r senario 'trosiannol a fethwyd' (55% yn is na'r llinell sylfaen), a phwysigrwydd cymryd camau cadarnhaol i liniaru hyn, megis newid y Gronfa i gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy PPC.

**<u>PENDERFYNWYD</u>:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried, trafod ac yn nodi adroddiad drafft y Tasglu arfaethedig ar gyfer Datgeliadau Ariannol yn ymwneud â'r Hinsawdd a'r Dadansoddiad ar gyfer Trawsnewid Hinsawdd.

## 31. DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AC YMGYNGHORIADAU

Aeth Mr Latham â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad hwn, gan amlygu rhai meysydd allweddol a oedd wedi datblygu ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu:

- Roedd Richard Weigh, swyddog adran 151 Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi'i benodi i'r swydd wag fel cynrychiolydd cyflogwyr ar y Bwrdd Pensiwn.
- Mae sesiynau hyfforddi mewnol bellach wedi'u trefnu ar ôl pob un o'r ddau gyfarfod Pwyllgor nesaf ym mis Chwefror a mis Mawrth.
- Cynhelir Cynhadledd Lywodraethu Flynyddol y CLIL yng Nghaerefrog ar 18-19 Ionawr. Bydd dau aelod o'r Pwyllgor yn bresennol.
- Bydd manylion Seminar Buddsoddi Parc Carden yn cael eu dosbarthu i aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd.
- Cynhelir Cyfarfod Cyflogwyr Blynyddol y Gronfa yn Neuadd y Sir ar 7 Rhagfyr. Gwahoddir cyflogwyr a Chynrychiolwyr Aelodau'r Cynllun yn ogystal ag aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd i fynychu, ymgysylltu a gofyn cwestiynau am y cyflwyniadau fideo sydd wedi'u dosbarthu.

Aeth Ms Murray â'r Pwyllgor drwy'r cynnydd ar ddatblygu Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) y Gronfa a'r diffiniad drafft o EDI sy'n ystyried canllawiau TPR a pholisïau Cyngor Sir y Fflint. Barn TPR yw bod ymagwedd briodol at EDI yn arwain at wneud penderfyniadau gwell, a chanlyniadau gwell i aelodau a chyflogwyr.

Dywedodd y Cyng Rutherford ei fod yn croesawu'r Gronfa i ddatblygu ei pholisi EDI ei hun. Teimlai y byddai'n ddefnyddiol i aelodau'r Pwyllgor gael asesiad o sut y gallai penderfyniadau effeithio ar EDI, yn debyg i asesu effaith BC penderfyniadau ariannol.

Eglurodd Mr Latham fod y Llywodraeth bellach wedi rhoi ei hymateb i ymgynghoriad DLUHC ar y camau nesaf ar gyfer buddsoddiadau CPLIL, ac wedi trosglwyddo'r awenau i Mr Turner gyfleu'r canlyniadau i'r Pwyllgor. Eglurodd Mr Turner nad oedd unrhyw gamau gweithredu tymor agos i'r Gronfa eu cymryd, gan fod y Gronfa eisoes ar y trywydd iawn tuag at uchelgeisiau allweddol datganiad y Llywodraeth. Mae'r uchelgeisiau hyn i'w datblygu ar sail cydymffurfio-neu-esbonio. Mae uchelgais clir i gyflymu'r broses o gronni asedau erbyn mis Mawrth 2025, gydag uchelgais tymor hwy ar gyfer llai o gronfeydd mwy, gydag isafswm maint cronfa o £50bn. Mae lefel asedau'r Gronfa sydd wedi'u cronni wedi bod yn cynyddu, a bydd hwn yn parhau i fod yn nod allweddol i'r Gronfa, fodd bynnag mae rhwystrau ar hyn o bryd i drawsnewid rhai meysydd o'r portffolio. Ar hyn o bryd nid oes gan PPC (Partneriaeth Pensiwn Cymru) gyfatebiaeth addas i Fframwaith Rheoli Arian a Risg y Gronfa, na'r portffolio Dyrannu Asedau Tactegol, ac ni chaiff yr asedau hyn eu trosglwyddo hyd nes y datblygir datrysiad cyfun priodol. Mae yna hefyd uchelgeisiau ar gyfer hyfforddiant Pwyllgorau a gofynion adrodd, y bydd Ymgynghorwyr Llywodraethu'r Gronfa yn gallu darparu cymorth ar eu cyfer.

Ychwanegodd Ms Murray fod y Llywodraeth wedi dweud y bydd canllawiau cronni yn cael eu hadolygu i nodi model a ffefrir lle gellir dirprwyo dewis rheolwyr a gweithredu strategaeth i gronfeydd. Mewn perthynas ag adborth na ddylai cronfeydd ddarparu cyngor buddsoddi strategol i gronfeydd oherwydd gwrthdaro buddiannau, ymatebodd y llywodraeth nad yw'n ystyried bod gwrthdaro yn bodoli ar gyfer cwmnïau cronfa sy'n eiddo i gronfeydd partner, er y gallai fod angen cyngor ar wahân ar gyfer cronfeydd sy'n defnyddio gweithredwr trydydd parti. Bydd y cynnig i gyflwyno amcanion ar gyfer ymgynghorwyr buddsoddi hefyd yn mynd yn ei flaen, er bod hyn eisoes yn ei le ar gyfer CPF.

Nododd Mr Latham ynghylch maint Cronfa Cymru o'i gymharu ag uchelgais y Llywodraeth ar gyfer maint y gronfa fel amcan tymor hwy. Er y cafwyd rhai awgrymiadau llafar na fwriedir cael cronfeydd ar draws ffiniau, ni fu unrhyw sôn ysgrifenedig am hyn.

Ychwanegodd Ms Murray mai datblygiad terfynol pellach ers i'r adroddiad gael ei ysgrifennu oedd cyhoeddi ymchwil TPR a gynhaliwyd rhwng Ionawr a Mawrth ar gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â llywodraethu a gweinyddu. Gall hyn gael ei ystyried yn y bwrdd pensiwn nesaf. Dangosodd y canlyniadau nad oedd mwyafrif y cynlluniau wedi ystyried EDI, gan gynnwys traean o Gronfeydd CPLIL. Nododd mai'r risg allweddol i gronfeydd CPLIL oedd recriwtio a chadw, ac mae'r Gronfa wedi bod yn cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

Tynnodd Mrs McWilliam sylw at y ffaith bod aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfod blynyddol y Gronfa ar gyfer cynrychiolwyr cyflogwyr ac aelodau'r cynllun yr wythnos nesaf.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diweddariad.

**32. DIWEDDARIAD GWEINYDDU / CYFATHREBU PENSIYNAU**

Aeth Mrs K Williams â'r Pwyllgor drwy'r adroddiad hwn, a thynnodd sylw at y datblygiadau a ganlyn:

- Mae'r amserlen ar gyfer y Dangosfwrdd Pensiynau Cenedlaethol bellach wedi'i chyhoeddi, a bydd angen i'r Gronfa gwblhau'r broses ymuno erbyn mis Medi 2025. Bydd y Gronfa'n parhau i lanhau data, yn cadarnhau darparwr ei llwyfan ac yn cynllunio amserlenni pellach yr adroddir arnynt ym Mhwyllgorau'r dyfodol.
- Roedd cyflogwyr wedi rhannu adborth cadarnhaol ar y fideos yr oedd y Gronfa wedi'u dosbarthu i roi diweddariad cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyflogwyr.
- Mae'r ffenestr ymgeisio wedi cau ar gyfer swyddi gwag yn y tîm gweinyddol ac mae'r cyfweliadau'n cychwyn yr wythnos nesaf. Roedd yn ymddangos bod nifer yr ymatebion a dderbyniwyd wedi gwella wedi i'r swyddi ddod yn rolau parhaol.
- Mae'r Swyddog Cyfathrebu a Marchnata wedi gadael y rôl a byddai adborth o'r cyfweliad ymadael yn cael ei ddefnyddio i adolygu'r swydd-ddisgrifiad wrth symud ymlaen.
- Mynychodd Mrs K Williams Gynhadledd Rheolwyr Pensiynau yn Torquay yr wythnos diwethaf, ac roedd yn falch o nodi bod llawer o'r heriau a drafodwyd yn y gynhadledd yn feysydd y mae'r Gronfa eisoes yn mynd i'r afael â hwy yn rhagweithiol.
- Mae'r Gronfa wedi cynnal dwy sesiwn ymgysylltu â chyflogwyr, a bwriedir cynnal y nesaf ym mis Chwefror. Mae'r cyfarfodydd hyn wedi amlygu diddordeb mewn cynnal cyfarfod ychwanegol ar gyfer cynghorau tref a chymuned bach, sydd bellach yn cael ei gynllunio hefyd.

Gofynnodd y Cyng. Rutherford am eglurhad o'r datganiad ar dudalen 386 sef "Os bydd recriwtio i raddfa Swyddog Pensiwn yn aflwyddiannus, cynigir bod unrhyw swyddi gwag Swyddog Pensiwn sy'n weddill yn cael eu recriwtio ar y raddfa Cynorthwyydd Pensiwn is".

Eglurodd Mrs K Williams fod y Gronfa yn hanesyddol wedi cael trafferth recriwtio i raddfa Swyddog Pensiwn tra bod rolau cynorthwywyr pensiwn fel arfer yn derbyn mwy o geisiadau. Lle bo ymgeiswyr i'r radd cynorthwyydd pensiwn yn gallu cyrraedd y raddfa swyddog pensiwn, gellir cyflogi'r ymgeiswyr hyn ar y sail y bydd hyfforddiant yn eu symud ymlaen i raddfa swyddog pensiwn. Fodd bynnag, yn ystod yr ymarfer recriwtio hwn, mae nifer o geisiadau cryf wedi dod i law ar gyfer gradd y swyddog sydd bellach yn rôl barhaol. Gofynnodd y Cyng Rutherford am gadarnhad na fyddai hyn yn arwain at Gynorthwywyr Pensiwn yn gwneud gwaith Swyddog Pensiwn. Cadarnhaodd Mrs K Williams, er bod staff yn cael eu recriwtio gyda'r bwriad o symud ymlaen at rôl Swyddog, nid yw'r Gronfa yn gofyn i staff weithio y tu hwnt i'w gradd cyflog. Ychwanegodd Mrs

Carney fod y trefniadau hyn yn disodli gradd gyrfa'r Cyngor wrth gefnogi staff i symud ymlaen i rolau pellach o fewn Cyngor Sir y Fflint.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried ac yn gwneud sylwadau ar y diweddariad.

## 33. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FUDDSODDI A CHRONNI

Aeth Mr I Hughes â'r Pwyllgor trwy brif bwyntiau'r adroddiad hwn gan gynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd yn erbyn y cynllun busnes, materion PPC, a buddsoddiadau lleol ac effaith. Rhannodd fideo yr oedd y Gronfa wedi'i gynhyrchu mewn partneriaeth â'r Sefydliad Rheoli Pensiynau, yn arddangos buddsoddiadau cyfrifol y Gronfa mewn ynni glân drwy Capital Dynamics, a mentrau lleol bach/canolig drwy Fanc Datblygu Cymru. Dywedodd Mr Hibbert ei fod wedi mwynhau'r fideo a oedd yn addysgiadol iawn iddo.

Ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor, roedd Swyddogion y Gronfa wedi cyfarfod â swyddogion o awdurdodau eraill Cymru ar dri achlysur ynghylch buddsoddi cyfrifol, gan gynnwys cyflwyniad cod stiwardiaeth PPC, adroddiadau risg hinsawdd ac ESG, ac adroddiadau ymgysylltu pleidleisio gan Robeco. Mae Hymans bellach wedi cynhyrchu adroddiad BC ar ran PPC a oedd ynghlwm fel atodiad i'r adroddiad. Bydd y Pwyllgor a'r Bwrdd yn parhau i dderbyn papurau JGC Preifat ar ymgysylltu a benthyca gwarantau fel y cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor.

Aeth Mr A Munro â'r Pwyllgor drwy adroddiad Adolygiad AVC 2023 sy'n trafod dau ddarparwr AVC y Gronfa: Utmost (buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag unedau) a Prudential (buddsoddiadau sy'n gysylltiedig ag unedau a chydag elw). Nid oedd unrhyw bryderon gyda'r naill ddarparwr na'r llall. O ganlyniad i'r adolygiad, cynghorwyd Swyddogion i anfon cyfathrebiadau yn atgoffa aelodau o'u AVC, yn ogystal â nodiadau atgoffa cyfnodol o nodweddion allweddol a risgiau cronfeydd gydag elw. Cynhelir yr adolygiad AVC nesaf erbyn mis Tachwedd 2024.

Atgoffodd Mrs McWilliam aelodau'r Pwyllgor a'r Bwrdd o werth AVC fel cyfle ychwanegol ar gyfer arbedion ymddeoliad, a phwysigrwydd adolygu'r darpariaethau AVC yn rheolaidd i sicrhau bod yr arian a gynigir a'r cyfathrebu o'u cwmpas yn parhau'n addas i ddiogelu arian aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn ystyried, nodi ac yn gwneud sylwadau ar y diweddariad.

## 34. CYLLID A PHERFFORMIAD BUDDSODDI

Aeth Mr Turner â'r Pwyllgor drwy amodau a pherfformiad y farchnad, gan amlygu'r gyfradd is o gynnydd mewn chwyddiant a'i rôl o ran lleihau arenillion bondiau'r llywodraeth, a fyddai'n fuddiol i CPF drwy ddarparu amgylchedd mwy sefydlog ar gyfer dosbarthiadau asedau eraill gan gynnwys marchnadoedd ecwiti. Roedd marchnadoedd ecwiti yn perfformio'n dda ac yn cael eu dominyddu gan yr Unol Daleithiau a nifer fach o stociau'n gweithredu fel ysgogwyr marchnad allweddol.

Esboniodd Mr Middleman y diweddariad Ariannu a thynnodd sylw at y ffaith, er bod y lefel ariannu ar darged o 105% ar ddiwedd mis Medi, y bu gostyngiad bach ers yr adeg adrodd, oherwydd perfformiad y farchnad ac effaith chwyddiant ar rwymedigaethau. Mae gwarged ar hyn o bryd yn bwynt trafod allweddol o fewn y CPLIL, a sefydlwyd gweithgor gwarged cenedlaethol i drafod sut y dylid defnyddio gwarged, gan gynnwys adolygiad posibl o gyfraniadau cyn y prisiad nesaf o ystyried y pwysau ar gyllidebau cynghorau. Bydd y Pwyllgor yn clywed mwy am hyn dros y misoedd nesaf wrth i ni symud i gamau cychwynnol prisiad 2025. Unwaith y byddai datganiad Bwrdd Cynghori'r Cynllun wedi'i gyhoeddi, byddai Mr Middleman yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf. Fodd bynnag, nid oedd yn teimlo y byddai'n effeithio ar y Gronfa gan fod cynaliadwyedd cyfraniadau a defnydd priodol o arian gwarged gan gyflogwyr yn ganolog i'r strategaeth ariannu.

Roedd y Strategaeth Llwybr Hedfan a'r Fframwaith Rheoli Arian Parod a Risg yn gweithio'n dda, er y cedwir llygad ar arian ar hyn o bryd oherwydd ei berfformiad. Mae'r sail rhagfantoli yn cael ei diweddaru i adlewyrchu amodau'r farchnad yn well, ond nid yw hyn yn effeithio ar y risg gyffredinol.

Dywedodd Ms Murray fod gweithgor gwarged SAB wedi codi pryderon ynghylch y gwrthdaro buddiannau posibl wrth i awdurdodau gweinyddu ofyn am lai o gyfraniadau gan gyflogwyr. Cytunodd Mr Middleman â'r pryder hwn a nododd bwysigrwydd hysbysu'r Pwyllgor o'r materion hyn.

Gofynnodd y Cynghorydd Rutherford a allai cronfeydd pensiwn sy’n darparu cymorth ar gyfer cyllidebau cynghorau greu diffyg y byddai’n rhaid i aelodau dalu amdano yn y pen draw, yn debyg i wyliau pensiwn y 1990au. Nid oedd Mr Middleman yn rhagweld y byddai hyn yn digwydd, ond nododd y byddai'n debygol o fod yn ffactor i'w drafod wrth i ddadleuon gwarged fynd rhagddynt yn genedlaethol, ochr yn ochr â chynaliadwyedd cyfraniadau a ffactorau eraill. Amlygodd fod y strategaeth ariannu yn cael ei chymeradwyo yn y pen draw gan y Pwyllgor yn seiliedig ar gyngor yr Actiwari felly bydd craffu priodol ar y mater hwn.

Nododd Mr Hibbert fod llawer o gynghorau yn wynebu problemau oherwydd eu bod wedi rhewi’r dreth gyngor dros y blynyddoedd, gan y gall effaith gronnus y mesurau hyn fod yn fwy niweidiol yn y dyfodol nag o fudd ar y pryd. Yn yr un modd, mae angen i'r Gronfa sicrhau nad yw'r camau a gymerir yn rhoi mwy o risg yn y dyfodol er budd cymharol fach yn awr. Cytunodd Mr Middleman y byddai hyn hefyd yn rhan allweddol o'r ddadl a bwydo i mewn i'r trafodaethau blaenorol ar gynaliadwyedd cyfraniadau ac felly effaith y gyllideb yn y tymor byr a'r tymor hwy.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi’r adroddiad a'r camau amrywiol a gymerwyd mewn perthynas â'r fframwaith ariannu a rheoli risg.

## 35. CYFARFODYDD Y DYFODOL

Gofynnodd y Cadeirydd i’r Pwyllgor nodi’r dyddiadau canlynol ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor yn y dyfodol:

- Dydd Mercher 28 Chwefror 2024

- Dydd Mercher 20 Mawrth 2024
- Dydd Mercher 19 Mehefin 2024

**PENDERFYNWYD:**

Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd gan y Pwyllgor.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am ddod ac am gymryd rhan. Cynhelir cyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 28 Chwefror 2023. Daeth y cyfarfod i ben am 11:27am.

……………………………………

**Y Cadeirydd**